



CERDDI KERALA

LLŶR GWYN LEWIS

V M GIRIJA / P P RAMACHANDRAN / ANVAR ALI
ANITHA THAMPI / MANOJ KUROOR

Mae hi wastad yn braf clywed am artistiaid o Gymru yn mynd ar dramp i lefydd pell yn rhinwedd eu gwaith, i rannu syniadau, i ddysgu ac i gydweithio. Dyma gyflwyno casgliad o gerddi gan feirdd o India sy'n cyfansoddi yn yr iaith Malayalam, mewn cyfieithiad gan Llŷr Gwyn Lewis, yn dilyn ei daith ddiweddar i dalaith Kerala. Ond yn gyntaf, ychydig o hanes y daith gan y bardd:

Mae dros ddegawd ers i sefydliadau Llenyddiaeth ar Draws Ffiniau a Chyfnwidfa Lân Cymru ddechrau trefnu digwyddiadau a gweithdai i hyrwyddo cysylltiadau a chydweithio rhwng amrywiol feirdd yng Nghymru ac yn India. Ymhlith y beirdd o Gymru sydd wedi bod ynghlwm â phrojectau yn y gorffennol mae Mererid Hopwood, Siân Melangell Dafydd, Eurig Salisbury, Karen Owen, Twm Morys, Hywel Griffiths, Siân Northey ac Eluned Gramich. Ar gyfer y daith ddiweddar hon teithiodd Robert Minhinnick a minnau o Gymru – a cael a chael oedd hi i'r ddau ohonom gyrraedd pen ein taith! – yn ogystal â Harkaitz Cano o Wlad y Basg a Nadia Mifsud o Malta, er mwyn cyfarfod a chydweithio â chriw o feirdd o dalaith Kerala, sy'n cyfansoddi yn yr iaith Malayalam.

Beth sy'n ddiddorol am Malayalam ydi bod 37 miliwn o bobol yn ei siarad, ond mi allech ddadlau ar yr un pryd ei bod, o fewn cyd-destun ehangach India, yn iaith leiafrifol neu yn sicr yn iaith 'lai'. Er bod ganddi gynifer o siaradwyr, dim ond tua 3% o boblogaeth y wlad gyfan sy'n ei siarad! Yn sicr roedd hwn yn gyd-destun difyr newydd i ddysgu yn ei gylch ac i weithio o'i fewn. Yr awdur gwych Sampurna Chattarji fu'n cydlynu'r tridiau – hynod ddwys – o weithdy yng nghaffi'r deryn to, ac yno y buom yn trafod ac yn holi efo P P Ramachandran, V M Girija, Anvar Ali, Anitha Thampi, a Manoj Kuroor. Roedden nhw a'u gwaith i gyd yn sobor o ddifyr ac yn amrywiol dros ben, ac roedden nhw'n feirdd ac yn wrandawyr hynod astud a deallus.

Cawsom gyflwyno rhywfaint o ffrwyth ein gwaith wedyn mewn sesiwn yn ystod gŵyl lenyddiaeth Kerala ar y traeth yn Kozhikode, a dyna brofiad braf a rhyfedd oedd cael darllen fy ngwaith fy hun a rhai o'r cyfieithiadau gerbron cynulleidfa o gannoedd brwd ac egniol. Diolch o galon i Llenyddiaeth ar Draws Ffiniau, ac yn enwedig Alexandra Büchler ac Elin Haf Gruffydd Jones, am y cyfle unigryw ac amhrisiadwy hwn.



A dyma weld fel y mae
y lôn fawr lydan wedi agor hafn
rhwng yr hen bobol a'r bae ...



OS YMADAEL

Fe'i copiwyd, a'i rwydo,
a'i lond oll o'th galon, do,
yna'i gau. Tithau'r teithiwr
di-raen, sal, ni fedri, siwr,
aros, na gwagswmera
i'w ddal a'i ddarllen yn dda;
ond yn rhy gyndyn, o raid,
i dynnu clawr dy enaid,
yn dy nwyd heno'n oedi
rhag rhoi mwy o'r gwir i mi,
selio'i gloi, a grisial glaw
dy lais fel goglais gwaglaw.

Peraroglau'r blodau blêr;
adar mân diwnia'n dyner;
blaguryn pob brigyn brau:
I bwy? Ni wn. Neb? Ninnau?

Ar dy ôl, daeth drwy'r deildy
feillion brau a'u blodau'n blu,
a phrysg yn derfysg o dwf
yn niweirdeb eu hirdwf.
Fe heda'r adar wedyn;
pellhau o'r canghennau hyn
wna'r haf, a'r blagur hefyd
heb eu hawlio'n gwywo i gyd ...

Ond cariad, mae'r eiliadau
pur hyn ynom ni'n parhau.

V M GIRIJA
(‘Migration’)

GOLYGFA 3

Beer and wine.
Siop gornel bitw'n chwarae mig
tu nol i gyrtan les

gan ddangos dim ond cip
o figyrnau'i chwsmeriaid
jest digon i godi syched

y traed sy'n dod yn llanw budur
at droed Duwies y Stryd,
hi yn ei hanner sgert.

P P RAMACHANDRAN
(‘Ghatkopar’)

PA FFORDD MAE'R GWYNT YN CHWYTHU

Darn o dir yw'n dyrnaid o wynt
llawn sŵn sgriffiadau gwyllt y coed
a'u man ganghennau'n sgwennu'r chwa
a chwythodd ffwng yn ddail, yn adar, yn eirth, yn bobl,
eu gyrru i eistedd a chachu, i hongian a chanu.

Os daw'r darn o dir un dydd
yn wlad sefydlog, lonydd,
a cheulo'n gorff disymud, di-droi'n-ôl
heb awgrym o grac canghennau na chwymp y dail.

I le, wedyn,
y gall gwrthryfel hedeg ar adain breuddwydion
ond atat ti i fyw eto,
genedl rydd y gwynt?

ANVAR ALI
(‘Wind’ o *Dwellings*)

CERDD 2

Ro'n i'n siwr mod i'n ei nabod
o rywle — ro'n i'n gwbod,
yna fflach o'i gofio am y bwrdd
a fi yn yr ysgol waelod

rhyw lwyd wedi dod o rywle i'w wallt
ond ei gefn o hyd yn grwman
a'i ddannedd yn felyn run fath a'i fest
run ofn pechu neu fethu
yn y llygaid drodd i ffwrdd.

Ond dyma ei ddilyn a ngolwg i
a'i wyllo'n fach o gorff
a main o gyhyr
yn taflu'r bag poteli gweigion
yn glinciad medrus a'i lori'n gwegian.

Roeddau ni'n fwy tebyg
bryd hynny hefyd
i'n gilydd nag y mentrai neb ei addef;

dau'n dal i chwilmanta ym mhethau'r byd
i sortio rhwng ei gariad a'i sbwriel o hyd
minnau'n wyneb iaith, fo'r domen byd.

P P RAMACHANDRAN
(o ‘Two Poems on Language’)

Y GEIRIAU AETH AR GOLL (RHAN 1)

Adra ar ôl degawd o grwydro
es am dro efo hen ffrind o ffwrdd
gan gamu'n betrus rhwng fy nwy iaith,

i fynd i weld yr hen lefydd
oedd yn dal yn fyw
yn fy ngherddi a 'nghof.

A dyma weld fel y mae
y lôn fawr lydan wedi agor hafn
rhwng yr hen bobol a'r bae
a'r tai wedi'u hailgodi i gyd
finnau'n gwneud fy ngorau glas
i droi'n gyfieithydd ar y pryd
i drosi drosto bob camlas, pob stryd.
Gwenodd fy ffrind, gan fynnu
nad oedd angen imi fod yn rhy lythrennol.

MANOJ KUROOR
(‘What is Lost in Translation’)

CÂN Y MOJITO

Mintys — pum deilen
Siwgr — dwy lwyaid o leuad lawn
Sudd — tri lemwn
Dau fesur a hanner o fodca
Mymryn o hyn
a mymryn o'r llall.

Yng ngwlad y dail henllydan
hyd y geuffordd gul ddu bitsh
siglo dan ledrith yn ôl a blaen mae'r lloergan
ar wasgar fel cân wyllt

y lleuad sy'n gorlifo'r wawr heibio'r seren ola
a phwy fyddi di, gefn dydd gola?
y lleuad sy'n gawod afeithus ddiorffwys i gyd
alli di fod
mewn hyn o fyd?

Lleufer fel grisial yn cannu, yn cafnu'n goch
yn glasu'n aeddfed mewn dwy genhedlaeth a hanner
cyn baglu a llithro hyd ddail llathraidd, ti'r lleufer,
fydd hi fel fi?
fydd o fel chdi?
mymryn o'r ddau
ohonan ni?

ANITHA THAMPI
(‘Mojito Song’)